OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 341 (Cy. 95)

# Y GYMRAEG
# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Diwygio Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *17 Mawrth 2021* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 84(2) a 174 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021(**1**).

Gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd drwy benderfyniad ganddi yn unol ag adran 174(4) a (5)(l) o'r Ddeddf honno.

### Enwi a dod i rym

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Diwygio Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2021.

### Diwygio Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011

**2.**—(1) Mae Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (cyrff cyhoeddus etc: safonau)(**2**) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn y tabl, o dan y pennawd "LLYWODRAETH LEOL ETC", yn y lle priodol mewnosoder—

| | |
|---|---|
| "Cyd-bwyllgorau corfforedig ("Corporate joint committees") | Safonau cyflenwi gwasanaethau |
| | Safonau llunio polisi |
| | Safonau gweithredu |
| | Safonau hybu |

(**1**) 2021 dsc 1

(**2**) 2011 mccc 1. Diwygiwyd Atodlen 6 yn flaenorol ond nid yw'r diwygiadau yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

Safonau cadw cofnodion"

(3) Ym mharagraff 2 (dehongli), yn y lle priodol mewnosoder—

"ystyr "cyd-bwyllgor corfforedig" ("*corporate joint committee*") yw cyd-bwyllgor corfforedig a sefydlwyd drwy reoliadau a wnaed o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021;".

*Julie James*
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

17 Mawrth 2021

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (mccc 1) ("y Mesur") yn gwneud darpariaeth ar gyfer pennu safonau ymddygiad mewn perthynas â'r Gymraeg.

Mae adran 25 o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i berson gydymffurfio â safon ymddygiad mewn perthynas â'r Gymraeg a bennir gan Weinidogion Cymru os yw'r person, yn ogystal â bodloni amodau eraill, yn agored i orfod cydymffurfio â safonau'r Gymraeg a bod y safon yn gymwysadwy i'r person.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 6 i'r Mesur i ychwanegu cyd-bwyllgorau corfforedig a sefydlir drwy Reoliadau a wneir o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 1). Effaith hyn yw bod cyd-bwyllgorau corfforedig yn gyrff sy'n agored i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg a bod y safonau cyflenwi gwasanaethau, y safonau llunio polisi, y safonau gweithredu, y safonau hybu a'r safonau cadw cofnodion yn gymwysadwy iddynt hwy.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gysylltiedig â Rheoliadau sy'n sefydlu cyd-bwyllgorau corfforedig penodol o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau sy'n sefydlu cyd-bwyllgorau corfforedig a rheoliadau cysylltiedig. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol. Gellir cael copi oddi wrth: yr Is-adran Cyllid Strategol Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.